



Children in Wales
Plant yng Nghymru

**Adroddiad
Blynyddol a
Chrynodeb
Ariannol
2012/2013**



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Datblygu a chynnal rhwydweithiau cryf	4
Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth	6
Polisi, datblygu ymarfer ac ymchwil	8
Ymgynghori	10
Cynrychiolaeth	11
Cynyddu ymwybyddiaeth ghoeddus a phroffesiynol	13
Cynadleddau a digwyddiadau	14
Hyfforddiant	15
Cefnogi mentrau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli	
Cefnogi Cynnar	17
Prosiect Cynnwys Teuluoedd	18
MEIC	19
Cyrraedd y Nod Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)	20
Llywodraethiant	23
Aelodau Plant yng Nghymru	24
Crynodeb ariannol	27



Cyflwyniad

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Ein nod yw hybu buddiannau'r grwpiau hynny a chymryd camau i ddiwallu eu hanghenion.

Er mwyn gwneud hyn rydym yn:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Ymladd dros wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw arbennig a thriniaeth ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau bod llais gan blant a phobl ifanc

Corff o aelodau yw Plant yng Nghymru, ac mae'n darparu ystod o wasanaethau a luniwyd i hysbysu'r aelodau yn barhaus ynghylch datblygiadau newydd, ac i hwyluso ymatebion ar y cyd. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad annibynnol, anllwyodraethol.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Cynnal a datblygu rhwydweithiau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Datblygu polisi, arfer ac ymchwil
- Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus, wleidyddol a phroffesiynol
- Cefnogi mentrau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut y cyflawnwyd yr amcanion hynny yn ystod 2012/13.

Datblygu a chynnal rhwydweithiau cryf

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso ystod eang o rwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i drafod materion polisi ac arfer. Maent yn hanfodol i'n gwaith gan eu bod yn ein helpu i ddeall y materion sy'n destun pryder sy'n effeithio ar sefydliadau ar draws y sector plant. Trwy'r rhwydweithiau hyn gallwn roi gwybod i'r aelodau am ddatblygiadau newydd, rhannu arfer da a datblygu persbectif priodol ar ddatblygiadau polisi.

Mae'r **Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth** yn gyfle i ymarferwyr yn y maes rannu ymarfer, profiad a gwybodaeth am eiriolaeth a meysydd cysylltiedig. Mae'n cyfrannu at wella datblygiad ymarfer eiriolaeth ledled Cymru.

Mae **Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan** yn cyfrannu at ddatblygu eiriolaeth effeithiol yng Nghymru ac yn ei gefnogi. Ei nod yw hyrwyddo gwaith partneriaeth a strategaethau datblygiadol rhwng sefydliadau. Mae'n hwyluso datrys problemau ac yn canfod atebion i wrthdaro buddiant posibl.

Mae'r **Rhwydwaith Cyfnewid Ymarfer a Gwybodaeth am Atal Damweiniau Plant (CHAPPIE)** yn ceisio hyrwyddo'r gwaith o atal damweiniau ac anafiadau anfwriadol i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'n cefnogi ymarferwyr, rheolwyr a llunwyr polisi yn eu rolau cysylltiedig ag atal anafiadau.

Mae'r **Grŵp Cyfnewid Ymarfer Plant a Theuluoedd** yn cwrdd yn rheolaidd yn Ne Cymru i alluogi ymarferwyr i rannu arbenigedd a gwybodaeth am amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Mae'r **Grŵp Cyfnewid Ymarfer ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc** yn galluogi ymarferwyr yng Ngogledd Cymru i gwrdd yn rheolaidd er mwyn rhannu

arbenigedd a gwybodaeth am amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Sefydlwyd **Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru** i sicrhau bod polisiau oedd yn ymwneud â'r agenda gwrthfwlio, mewn ysgolion a chymunedau, yn cael eu gwerthuso a'u cydlynu. Mae'r grŵp yn cwrdd i greu llais cryf er mwyn herio a chefnogi gwaith gwrthfwlio yn genedlaethol ac yn lleol. Mae hefyd yn gyfle i rannu ymarfer a rhannu pryderon cyffredin.

Mae **Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru** yn glymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant. Fe'i sefydlwyd ym mis Tachwedd 2001 ac mae'n gweithio i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o dlodi plant yng Nghymru a mesurau i'w ddileu. Mae'n lloïo dros bolisiau ar bob lefel o fewn y llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Rhwydweithiau amlasiantaeth o sefydliadau magu plant yw'r **Fforwm Magu Plant a Fforwm Tadau Cymru**. Maent yn hwyluso rhannu arfer da, yn lledaenu gwybodaeth berthnasol, gwaith ar hyfforddiant a safonau ansawdd, ac yn cyfleu barn rhieni, gofalwyr a phlant i lunwyr polisi yng Nghymru. Maent yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ar y cyd, a hefyd yn cwrdd ar wahân i edrych ar faterion polisi penodol.



"Cyfle da i gwrdd â gweithwyr eraill a chlywed beth sy'n digwydd Roedd pwnc y cyfarfod rhwydwaith yma'n ddefnyddiol iawn i fi... Cyfle gwerthfawr i Rwydweithio a chyfnewid gwybodaeth Diolch yn fawr iawn." Cyfranogwr o Ogledd Cymru yn y Grŵp Cyfnewid Ymarfer ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Plant yng Nghymru sy'n rheoli'r rhwydwaith ac fe'u gwelir fel llais diduedd yn yr ystafell, sy'n cyflawni rôl cefnogi'r cyfarfodydd yn effeithiol. Mae'r rhwydwaith wedi esblygu'n sylweddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ac fe'i gwelir fel ffactor cyson sy'n rhan o lwyddiant y rhaglen." Rheolwr Dechrau'n Deg

"Dwy ddim yn credu y byddem ni wedi llwyddo i sicrhau bod ein hawliad magu plant yn cyrraedd darpariaeth sefydlog oni bai am y gefnogaeth gan gydweithwyr ar y Rhwydwaith rheolwyr." Rheolwr Dechrau'n Deg



Mae'r **Rhwydwaith Dechrau'n Deg** yn cwrdd bob chwarter, gan ddod â Chydlynwyr Dechrau'n Deg o'r 22 Awdurdod Lleol at ei gilydd. Hefyd trefnir cyfarfodydd ychwanegol a gweithdai yn ôl y galw. Mae'r rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cynnwys holl reolwyr y rhaglen mewn Awdurdodau Lleol yn ogystal â rheolwyr Llywodraeth Cymru.

Mae'r **Fforwm ar gyfer Darparu Gwasanaeth Integredig** yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd o bob rhan o Gymru sy'n arwain datblygiad y Tîm o Gwmpas y Teulu fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Nod y fforwm yw cynnig cefnogaeth cymheiriaid i reolwyr sy'n ymwneud â datblygu gwasanaethau lleoledig. Mae hefyd yn gyfle i weithwyr proffesiynol rannu arfer da a gwybodaeth wrth ddatblygu ymyriadau cynnar a gwasanaethau ataliol ledled Cymru.

Mae'r **Fforwm ar Faterion i Blant Anabl** yn grŵp amlasiantaeth sy'n rhannu gwybodaeth ac arfer da, ac yn lloio ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc anabl.

Mae'r **Grŵp Polisi Plant Anabl** yn dod â'r rhai sydd â briff polisi ynghyd i amlygu materion a phryderon ynghylch gwasanaethau i blant anabl. Mae cysylltiad agos rhwng y grŵp a'r Fforwm ar Faterion i Blant Anabl a'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl er mwyn adlewyrchu barn aelodau'r fforwm a sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed.

Mae **Linc3** yn cefnogi'r trydydd sector gyda materion sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n galluogi cynrychiolwyr o Gyngorau Gwasanaethau Gwirfoddol i wella gwybodaeth a chynnig cefnogaeth a dealltwriaeth

o'r ddeutu er mwyn gwella eu gwaith mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r aelodau o blaid cynrychiolaeth y trydydd sector a hyrwyddo hawliau plant.

Grŵp amlasiantaeth yw'r **Gyfnwidfa Iechyd Plant sy'n Derbyng Gofal** a'i nod yw helpu i dywys polisi ledled Cymru er mwyn hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu arfer a gwybodaeth.

Grŵp ar gyfer ymarferwyr magu plant sy'n gweithio yn ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Conwy a Gwynedd yw **Set Ddysgu Magu Plant Teuluoedd yn Gyntaf Gogledd Cymru**. Mae'r grŵp yn rhannu dysgu ac yn edrych ar flaenoriaethau ar y cyd ledled Gogledd Cymru.

Rhwydwaith ar gyfer y rhai sydd â rôl gydlyn strategol o ran cynnal rhieni yn eu Hawdurdod Lleol yw'r **Rhwydwaith Cydlynwyr Magu Plant**. Mae'r cyfarfodydd chwarterol yn rhoi cyfle i gydlynwyr rannu materion, datrysiadau, ymchwil a pholisi gyda'u cydweithwyr.

Mae'r **Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc** yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn, ac mae hefyd yn cynnal cyfarfodydd is-grwpiau ar bynciau penodol. Mae'r rhwydwaith ar agor i bawb sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn rhannu materion, pryderon ac yn cynnal datblygiad arfer da. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cefnogi rhwydwaith gofalwyr ifanc sy'n cwrdd i nodi materion allweddol sy'n destun pryder ac maent yn cael cyfle i gyflwyno'u pryderon i Ddirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.



Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth

Mae Plant yng Nghymru'n cynhyrchu ystod eang o wybodaeth er mwyn helpu i sicrhau bod eu haelodau'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf. Lledaenir gwybodaeth a fwriadwyd ar gyfer llunwyr polisi, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr mewn amrywiaeth o fformatau.

Website

Gwefan Mae gwefan Plant yng Nghymru (www.plantynghymru.org.uk) yn cael ei diweddarau'n ddyddiol. Mae'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf nid yn unig am ein gwaith ni, ond hefyd am bolisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a gwybodaeth am wasanaethau lleol ledled Cymru. Gall aelodau Plant yng Nghymru fewngofnodi i'n Hadran Aelodau i gael mynediad i amrywiaeth o ddeunyddiau ychwanegol.

Gwasanaeth yr E-friffiad Polisi

Dosbarthir E-friffiad Polisi'r Aelodau yn fisol i aelodau Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y datblygiadau polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys newyddion, ymgynghoriadau cyfredol, deddfwriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU, digwyddiadau i ddod a swyddi yn y sector plant. Mae'r E-friffiad Polisi yn cael

ei ddosbarthu i fwy na 2000 o unigolion, ond dengys adborth yr aelodau ei fod yn cyrraedd llawer mwy o bobl na hynny yn y sector plant yng Nghymru. Amcangyfrifir bod dros 5000 o unigolion o bosib yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi trwy ein gwasanaeth gwybodaeth polisi.

Twitter

Mae Plant yng Nghymru yn defnyddio Twitter i hyrwyddo gweithgareddau a chyhoeddiadau yn ogystal â pholisi newydd. Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn trydar yn gyson yn Gymraeg a Saesneg ac erbyn diwedd Mawrth 2013 roedd ganddynt 980 o ddilynwyr yn Saesneg a 109 yn Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y sector plant yng Nghymru, gwleidyddion Cymreig, newyddiadurwyr, busnesau ac amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion y tu allan i Gymru.

Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Cyhoeddir Cylchgrawn Plant yng Nghymru bob chwarter ac mae'n cynnwys amrywiaeth o newyddion ac erthyglau nodwedd. Mae'n crynhoi'r newyddion diweddaraf o'r Cynulliad a'r Senedd, Plant yng Nghymru a'n haelodau. Mae'n cynnwys ystod o erthyglau manwl a chyfweliadau, yn ogystal â cholofnau rheolaidd gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r Ddraig Ffyndu, a diweddariad gan MEIC.



Gwanwyn 2012

Iechyd plant sy'n derbyn gofal diwygio lles

Cefnogi gofal y tu allan i'r ysgol i blant anabl

MENCAP – Chwarae ein Ffordd ni
Cyfeliad gyda Dr Heather Payne
Cymhwyster i weithio gyda rhieni
Ad-drefnu partneriaethau
Cam-drin yn y cartref a phlant
Gwahardd cosb gorfforol – profiad y ffindir
Atal damweiniau yn y cartref



Haf 2012

Y cyfryngau a'u dull o bortreadu plant a phobl ifanc

Cyfeliad – pobl ifanc o leisiau o ofal
Y Cerdyn Adrodd am Ddiogelwch Plant

Gwaith ieuenctid yn yr ysbyty
Canolfan integredig rithwir i blant
Cerdyn adnabod ar gyfer y rhai sy'n
Gadael gofal a gofalwyr ifanc
Cefnogi Cynnar yng Nghymru a Lloegr
Prosiect Cynnwys Teuluoedd
Y Bil Plant a Theuluoedd



Hydref 2012

Cynlluniau Datblygu Unigol
Amddiffyn plant a gwahardd smacio
Hyfforddiant newydd achrededig
Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru
Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau gofal cymdeithasol
Y Gwasanaeth Cyngor ar Arian
Rhwydwaith Gwledig y Canolfannau Plant
Ymdrin â stereoteipiau rhywedd yn yr Ysgol
Plant y mae cam-drin yn y cartref yn effeithio arnynt



Gaeaf 2012

Anafiadau cartref yng Nghymru
Rhaglen Ieuenctid yn y Cyfryngau
Cyfeliad - John Valentine Williams
Yr Hidlydd
Galluogi a chefnogi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion digidol effeithiol
Ymgyrch KeepingItReal i wrthweithio bwlio
Helpu rhieni i leisio barn ar wasanaethau
Prosiect eiriolaeth Teulu Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin
Materion ymlyniad



Polisi, datblygu ymarfer ac ymchwil

Mae llawer o waith Plant yng Nghymru yn ymwneud â hyrwyddo polisi a datblygu arfer. Yn ystod 2012/13 cynhaliwyd ystod eang iawn o weithgareddau a oedd yn hyrwyddo polisi a datblygu arfer ar draws amrywiaeth o feysydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

Y Trydydd Sector

Mae Plant yng Nghymru'n cynrychioli'r sector gwirfoddol plant ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae hynny'n golygu cyflwyno barn y rhai sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol plant i gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac i gyfarfodydd a drefnwyd gyda gweinidogion unigol. Bu Plant yng Nghymru hefyd yn trefnu cynhadledd ar gyfer y trydydd sector, Cryfach gyda'n gilydd, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2012, gan edrych ar sut gellid dod â sefydliadau ynghyd i sicrhau y darperir gwasanaeth effeithiol i blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

Dyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol

Ar hyd 2012/13 sicrhodd Plant yng Nghymru fod barn ein haelodau yn cael ei throsglwyddo i lunwyr polisi wrth i'r trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gael eu datblygu. Rydym yn cael ein cynrychioli ar Fforwm Partneriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd ar Fwrdd Arweinyddiaeth Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol, lle rydym wedi bod yn amlygu sut bydd y newidiadau'n effeithio ar blant. Wedi ymgynghori â'n haelodau, fe wnaethom ni ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ym mis Mehefin 2012, a'r Dull o Ddatblygu Fframwaith Canlyniadau

Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ym mis Chwefror 2013.

'Sdim Curo Plant Cymru

Mae Plant yng Nghymru yn rhan o ymgyrch Cynghrair 'Sdim Curo Plant! ar draws y Deyrnas Unedig, sy'n ymgyrchu dros newid y gyfraith i roi'r un amddiffyniad cyfreithiol i blant a phobl ifanc rhag cael eu taro ag oedolion, trwy ddileu amddiffyniad "cosb resymol". Plant yng Nghymru sy'n cydlynu ymgyrch 'Sdim Curo Plant!/ Children are Unbeatable! Cymru, er hyrwyddo gwaith yr ymgyrch yng Nghymru. Yn ystod 2012/13 rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr sector gwirfoddol, i gefnogi'r ymgyrch yng Nghymru, ac i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion magu plant cadarnhaol.

Grŵp Seneddol yr holl Bleidiau dros Blant yng Nghymru

Mae Plant yng Nghymru'n gwasanaethu Grŵp Seneddol yr holl Bleidiau dros Blant yng Nghymru yn San Steffan. Mae'r grŵp hwn yn galluogi ASau Cymru sydd â diddordeb mewn materion plant i ddod at ei gilydd yn rheolaidd i drafod materion sy'n destun pryder a chwrdd â'r rhai sy'n gweithio yn y sector plant yng Nghymru. Cyfarfu'r grŵp sawl tro yn ystod 2012/13. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd effaith y diwygiadau lles ar deuluoedd ac

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru.

Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Blant

Plant yng Nghymru sy'n darparu ysgrifenyddiaeth Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol i Blant. Mae'r Grŵp yn cwrdd i ystyried gwahanol faterion sy'n bwysig i blant yng Nghymru ac i ystyried y goblygiadau polisi. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn darparu cyfleoedd i gynrychiolwyr sefydliadau perthnasol gwrdd gydag Aelodau Cynulliad i drafod materion sy'n destun pryder i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Ymchwil Ewropeaidd ar neiniau a theidiau

Comisiynwyd Plant yng Nghymru i gynnal astudiaeth yn archwilio sefyllfa neiniau a theidiau yn Ewrop oedd yn cyflawni rôl ofalu ar gyfer eu hwyrion. Comisiynwyd y gwaith gan Eurochild, rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio ar draws Ewrop i wella ansawdd bywyd i blant a phobl ifanc, ac roedd yn cyd-ddigwydd â Blwyddyn Ewropeaidd 2012 o Heneiddio Egnïol a Chyd-ddealltwriaeth rhwng y Cenedlaethau. Roedd yr astudiaeth Ewropeaidd yn cynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth ac arolwg ar-lein am y gefnogaeth a roddir i neiniau a theidiau o ran eu rôl ofalu mewn gwahanol wledydd yn Ewrop.

Atal damweiniau

Yn ystod 2012/13, bu Plant yng Nghymru yn gweithio ar brosiect i goladu enghreifftiau o weithgareddau diogelwch

plant ledled Cymru. Bydd hyn yn creu dogfen a fydd yn darparu enghreifftiau o ymyriadau ar waith sy'n helpu llunwyr polisi, rheolwyr ac ymarferwyr i weithredu ymyriadau a datblygu ymarfer yn eu hardal leol. Bu Plant yng Nghymru hefyd yn cynnal asesiad ar gyfer Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, a gynhyrchodd 2il gerdyn adrodd i Gymru ym mis Mehefin 2012. Roedd y cerdyn adrodd yn gosod Cymru yn safle 23 o blith y 31 o wledydd oedd yn cymryd rhan.

Gofalwyr ifanc

Mae Plant yng Nghymru wedi parhau i amlygu anghenion gofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'r DVD a'r taflenni a ddatblygwyd yn flaenorol gan y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc, yn amlygu materion sy'n destun pryder i ofalwyr ifanc, bellach wedi cael eu dosbarthu i arweinyddion gofalwyr Byrddau Iechyd Lleol, a swyddogion hyfforddi awdurdodau lleol. Cyfeiriwyd at y gwaith hwn hefyd gan Lywodraeth Cymru yn eu hymgyngoriad ar adnewyddu'r strategaeth i ofalwyr.

Ymarfer anabledd

Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn coladu enghreifftiau o ymarfer addawol yng nghyswllt cefnogi plant ifanc anabl. Coladwyd yr enghreifftiau trwy'r prosiect Cefnogi Cynnar, a bydd yn creu adroddiad a fydd yn arddangos ymarfer yng nghyswllt gwaith amlasiantaeth, gweithio allweddol a chefnogaeth mewn gwahanol leoliadau.





Mae nifer o faterion a godwyd gan Plant yng Nghymru yn ein hymatebion ymgynghori wedi cael eu derbyn gan lunwyr polisi ac wedi cael effaith ar ddatblygiad polisi yn y dyfodol. Er enghraifft, bu ymgynghoriad *Pan fydda i'n Barod* yn edrych ar gynllun arfaethedig fel bod pobl ifanc yn gallu aros gyda gofaldwyr maeth ar ôl cael eu pen-blwydd yn 18. Roedd ymateb Plant yng Nghymru yn croesawu egwyddor y cynllun ond, ynghyd â sefydliadau eraill, bu'n llobio i greu newidiadau penodol iddo. Derbyniwyd y newidiadau hyn a'u hadlewyrchu yn y datganiad dilynol ar y cynllun a gyflwynwyd gan Ddirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ymgynghori

Un o brif rolau Plant yng Nghymru yw cyfleu barn eu haelodau i lunwyr polisi, ac rydym yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn ymateb i ystod eang o ymgynghoriadau ac yn cadw mewn cysylltiad â'n haelodau, ein fforymau a'n rhwydweithiau i sicrhau bod ein hymatebion yn tynnu sylw at yr holl faterion perthnasol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes. Mae copïau o'n holl ymatebion ymgynghori ar gael i'n haelodau yn Adran Aelodau ein gwefan.

Yn ystod 2012/13 fe wnaethom ni ymateb i'r ymgynghoriadau canlynol:

- Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - Mawrth 2013
- Cymru Gynaliadwy – Dewis Dyfodol Gwell: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy – Mawrth 2013
- Mesur tlodi plant: Ymgynghoriad ar ddulliau gwell o fesur tlodi plant – Chwefror 2013 (Ymatebion gan Plant yng Nghymru ac ECPN)
- Diwygio Strategaeth Gofaldwyr Cymru – Chwefror 2013
- Dull o Ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
- Newidiadau arfaethedig i Reoliadau Safleoedd Di-fwg ac ati (Cymru)(Newidiwyd) 2012, Ionawr 2013
- Ddylai Llywodraeth Cymru gymhwyso'r 'Erthyglau' yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i bobl ifanc 18-24 oed? Rhagfyr 2012
- "Pan Fydda i'n Barod": Cynllunio Pontio i Oedolaeth ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal, Rhagfyr 2012
- Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol –

Rhagfyr 2012

- Ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu'n well anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni – Rhagfyr 2012
- GIG y Bobl – Hydref 2012 (Ymateb Grŵp Polisi Plant Corff Anllywodraethol Cymru Gyfan)
- Ymlaen mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig
- Ymgynghoriad: Safonau a'r Iaith Gymraeg: Beth yw eich barn? Comisiynydd y Gymraeg, Awst 2012
- Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn i greu Gwell Bywydau a Chymunedau, Awst 2012 (Ymatebion gan Plant yng Nghymru ac ECPN)
- Canllawiau cyfleoedd chwarae - Mehefin 2012
- Y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) – Mehefin 2012
- Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) – Mehefin 2012
- Taliad Annibyniaeth Bersonol: Trothwyon asesu ac ymgynghoriad, Mai 2012

Cynrychiolaeth

Mae Plant yng Nghymru yn tynnu sylw at bryderon ein haelodau ac yn hwyluso datblygiad yr agenda plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy gynrychiolaeth ar nifer o grwpiau. Yn ystod 2012/13 roedd y rhain yn cynnwys:

Y Llywodraeth

- Grŵp datblygu Agored
- Cyfarfod Rhanddeiliaid Lloches Cymru Gyfan
- Bwrdd Partneriaeth Osgo a Symudedd Cymru Gyfan
- Y Rhwydwaith Gwrthfwlio
- Grŵp rhanddeiliaid y mesur Gofalwyr
- Cynghair Cyngor Cymru o Gymorth a Gyfeirir gan Ddinasyddion
- Mynediad Uniongyrchol at y Fydwraig
- Grŵp Rhanddeiliaid Cynhwysiad Cymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Rhwydwaith Gweithlu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Monitro Teuluoedd yn Gyntaf
- Y Fforwm ar gyfer Darparu Gwasanaeth Integredig
- Grŵp Gweithredu Gwneud Pethau'n lawn
- Grŵp Rhanddeiliaid Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth
- Grŵp Marchnata MEIC
- Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)
- Gwasanaethau Rheoli Troseddwy Cenedlaethol – Grŵp Llwybr Plant a

Theuluoedd

- Yr Uwch-gynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Fforwm Partneriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tasglu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Datganiadau neu Rywbeth Gwell
- Grŵp Llywio Strategol sy'n ymwneud â Phrosiect "Fframwaith Gwella Newydd"
- Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Trechu Tlodi
- Fforwm Diogelu Plant Cymru
- Pwyllgor Cyfiawnder Ieuencid Cymru

Y Sector Statudol

- Grŵp Cynrychiolaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Cyngor Sir y Fflint
- Grŵp Rheolwyr Rhwydwaith Plant ag Anabledau
- Is-grŵp PPI Nod Craidd 7 Conwy
- Derwen – Gwasanaethau Arbenigwyr Plant
- Grŵp Cynrychiolaeth Cwsmeriaid Canolfan Byd Gwaith
- Rhwydwaith Cyfranogi Plant a Pobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd





Academaidd

- Pwyllgor Monitro Data Annibynnol Blociau Adeiladu (gwerthusiad Nyrs Teulu)
- Grŵp Llywio Ymwneud y Cyhoedd DECIPHer (Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er Gwella Iechyd Cyhoeddus)
- Grŵp Llywio'r Blynnyddoedd Rhyfeddol

Iechyd

- Grŵp Cynllunio Gweithredu CAMHS
- Grŵp Llywio'r Rhaglen Mesur Plant
- Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop (cynrychiolwyr y Gwledydd)
- Grŵp Llywio Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid NLIAH (Asiantaeth Arweinyddiaeth ac Arloesedd Cenedlaethol Gofal Iechyd)

Amlasiantaeth / nifer o sectorau

- Fforwm Cyfarfodydd Grwpiau Teulu Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Cyfarfodydd Grwpiau Teulu Cymru Gyfan
- Fforymau Iechyd a Lles Lloches
- Grŵp Ymgysylltu â Ieuenctid Rheoli Cŵn
- Grŵp Llywio'r Blynnyddoedd Cynnar
- Grŵp Llywio Polisi Eurochild
- Fframwaith Mesur Canlyniadau Dechrau'n Deg
- Grŵp y Glymblaid Tlodi Tanwydd
- Bwrdd ymgynghorol Rhaglen JRF – Tlodi ac Ethnigrwydd yng Nghymru
- Grŵp Llywio Llythrennedd, Cyfathrebu a Gweithgaredd Marchnata yng Nghymru
- Bwrdd Ymgynghorol GIG Gweinidogion y Cynulliad Cenedlaethol
- Grŵp Llywio Gwenwyno Cenedlaethol yn ystod Plentynod
- Grŵp Llywio Adolygiad Cenedlaethol Marwolaethau Plant
- Grŵp Adolygu Thematig Cenedlaethol Marwolaethau Plant
- Cyfarfodydd Gweithwyr Cyfranogiad Gogledd Cymru
- Rhwydwaith Plant ar eu pen eu hunain a Theuluoedd sy'n Ceisio Lloches
- Sefydliadau Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru

Y Trydydd Sector

- Grŵp Polisi Lloches Plant Cymru Gyfan
- Is-grŵp Erthygl 42
- Y Gynghrair Gofalwyr
- Grŵp Llywio'r Datrysiaid Tlodi Plant
- Consortiwm Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru
- Y Cyngor plant anabl
- Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd
- Y Fforwm Tlodi Diwylliannol
- Bwrdd Rheoli Cywaith
- Y Fforwm Plentynod Cynnar
- Bwrdd Rheoli Dileu Tlodi Plant
- Y Glymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Fforwm Tlodi Tanwydd De Cymru
- Fforwm Tlodi Tanwydd Gogledd Cymru
- Bwrdd Rheoli'r Ddraig Ffynci
- Grŵp Llywio Atal Damweiniau yn y Cartref Cymru
- Grŵp Ymgynghorol Cynnwys Teuluoedd
- Grŵp Rhanddeiliaid LDAN
- Grŵp Ymgynghorol NEA Cymru
- Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru
- Is-grŵp Hyfforddi'r Consortiwm Cyfranogiad
- Y Grŵp Llywio Polisi
- Yr Is-grŵp Safonau
- Cadeiryddion yr Is-grwpiau
- TSANA (Cynghrair anghenion ychwanegol y trydydd sector)
- Grŵp Llywio Cynhadledd 'Think Parent'
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd gyda'r Gweinidog
- Panel Etholaeth Dysgu a Datblygu Cymunedol Cymwysterau a Sgiliau'r Deyrnas Unedig
- Grŵp Monitro CCUHP
- Bwrdd Lleisiau o Ofal
- Cynghrair Rheoli Tybaco Cymru
- Tasglu Gwrthdlodi WCVA
- Is-grŵp y We a Gwybodaeth (y Consortiwm Cyfranogiad)

Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol

Y cyfryngau a chyflwyniadau

Trwy'r cyfryngau gallwn roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith ein hunain a'r pryderon sydd gennym ynghylch materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2012/13 fe wnaethom ni ryddhau nifer o ddatganiadau i'r wasg ynghylch ein digwyddiadau, ein cyhoeddiadau a materion eraill. Mae staff Plant yng Nghymru wedi cael eu cyfweld dros 50 o weithiau ar y teledu a'r radio, yn lleol ac yn genedlaethol, ac i ystod o gyfryngau printiedig. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i grwpiau llai, yn ogystal â chynadleddau mawr, am ein gwaith a meysydd pryder penodol, a hynny ar lefel leol a rhyngwladol.

Digwyddiadau

Mae ein cynadleddau a'n digwyddiadau yn fforwm i amlygu materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2012/13 fe fuom ni'n cynnal ystod o gynadleddau, seminarau a gweithdai. Bu'r rhain yn archwilio ystod o faterion megis diogelu plant yn y gwasanaeth iechyd, iechyd meddwl babanod a chefnogi'r trydydd sector i gyflawni dros blant a theuluoedd. Buom ni hefyd yn trefnu amrywiaeth o ddiwrnodau gwybodaeth a seminarau oedd yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol ddod at ei gilydd a dysgu

am faterion penodol. Roedd y rhain yn amrywio o ddiwrnod yn edrych ar nifer o faterion cysylltiedig ag awtistiaeth i ddiwrnod yn trafod sut i gefnogi rhieni i siarad â'u plant am dyfu i fyny, perthnasoedd a rhyw.

Hyfforddiant

Mae Plant yng Nghymru'n darparu ystod o gyrsiau hyfforddi amlldisgyblaeth, sy'n hyrwyddo dull integredig ymhlith pawb sy'n gweithio yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r cyrsiau'n tynnu ar adnoddau ein tîm ein hunain o staff arbenigol a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadau arbenigol, er mwyn darparu hyfforddiant ansawdd uchel ledled Cymru. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant wedi'i gomisiynu ar gyfer sefydliadau.

Desg gymorth a gwasanaethau cyfeirio ymlaen

Derbyniodd Plant yng Nghymru dros 200 o ymholiadau yn ystod 2012/13, a hynny gan aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y sector plant. Mae'r rhain wedi cwmpasu ystod o faterion, gan gynnwys amddiffyn plant, atal hunanladdiad, tlodi plant, rheoli ymddygiad, gweithio neu wirfoddoli gyda phlant, polisi, cofrestru ar gyfer gofalwyr plant a materion cyswllt.





“Diolch am ddiwrnod llawn gwybodaeth a siaradwyr ysbrydoledig.” Cynrychiolydd yn y Gynhadledd Bord Gron Flynyddol.

“Cynhadledd ardderchog, fe wnaeth yn union beth addawyd, ac fe gasglais i awgrymiadau da ar gyfer datblygu consortia.” Cynrychiolydd yng Nghynhadledd y Trydydd Sector.

“Diwrnod rhagorol, rwy’n mynd i wneud CCUHP yn rhan o’r arfer beunyddiol.” Cynrychiolydd yng Nghynhadledd Diogelu Plant a Phobl Ifanc yn y GIG.

Cynadleddau a digwyddiadau eraill

Yn ystod 2012/13 cynhaliodd Plant yng Nghymru y digwyddiadau canlynol:

Cynadleddau

- Diogelu Plant a Phobl Ifanc yn y GIG yng Nghymru: Edrych trwy lens gwahanol, Cynhadledd, gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru, 21 Mehefin 2012, Caerdydd
- Plant yn y Broses Loches – Her Rheoli Ffiniau ac Amddiffyn Plant, Cynhadledd, gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, 7 Tachwedd 2012, Caerdydd
- “Mor Ddiogel Don Dô?” Gweithio gyda’n Gilydd i Leihau Damweiniau yn y Cartref, Cynhadledd HAP Cymru a gynhaliwyd ar y cyd gan Plant yng Nghymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, 29 Tachwedd 2012
- Cryfach gyda’n Gilydd, Cynhadledd Trydydd Sector Plant yng Nghymru 2012, Dod â sefydliadau ynghyd i gyflwyno gwasanaeth effeithiol i Blant a Theuluoedd yng Nghymru, 5 Rhagfyr 2012, Caerdydd
- Hybu Iechyd Meddwl Babanod, Cynhadledd, 6 Chwefror 2013, Caerdydd
- Cynhadledd Cefnogi Cynnar, 27 Chwefror 2013, Llanelwy
- Diogelu Plant a Phobl Ifanc yn y GIG yng Nghymru: Edrych trwy lens gwahanol, cynhadledd, gyda Iechyd

Cyhoeddus Cymru, 20 Mawrth 2013, Llanelwy

- Meithrin Gwydnwch Plant a Theuluoedd: Beth yw’r Ffactorau Amddiffynnol? Cynhadledd Bord Gron Flynyddol Plant yng Nghymru 2013, 22 Mawrth 2013, Caerdydd

Digwyddiadau Eraill

Gwrthrycholi Rhywiol, Camfanteisio Rhywiol a Cham-drin Rhywiol: Rhoi Sylw i Ymchwil, Polisi ac Arfer, Seminar, Caerdydd, 30 Ebrill 2012

Amddiffyn Plant Du ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME), Gweithdy, 28 Mai 2012, Awtistiaeth yw fy ngrym goruwchnaturiol! Diwrnod Gwybodaeth y Fforwm Anabledd, 13 Mehefin 2012, Caerdydd

Fforwm Flynyddol Plant yng Nghymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Bro Morgannwg, 8 Awst 2012

Cefnogi Rhieni i siarad â’u plant am dyfu i fyny, perthnasoedd a rhyw, Gweithdy, 16 Hydref 2012, Caerdydd

Digwyddiad Lansio Ieuencid yn y Cyfryngau, Archwilio effaith y dull o’u portreadu yn y cyfryngau ar agweddau at blant a phobl ifanc, 12 Mawrth, Caerdydd

Hyfforddiant

Mae Plant yng Nghymru yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sector plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi sydd ar agor i bawb, a hyfforddiant penodol a gomisiynwyd gan asiantaethau allanol.

Hyfforddiant agored Plant yng Nghymru

Yn ystod 2012/2013 cynhaliodd Plant yng Nghymru raglen llwyddiannus iawn o hyfforddiant agored. Roedd ein llyfryn hyfforddi'n cynnwys amrywiaeth uchelgeisiol o hyfforddiant, yn cynnwys pynciau newydd, yn ogystal â rhai oedd wedi'u cynnal yn llwyddiannus yn y gorffennol, gan gynnwys Amddiffyn Plant; Meithrin Gwydnwch; Gweithio gyda Phlant Anabl; Iechyd Meddwl Rhieni a'i Effaith ar Blant; Goruchwyliaeth a Chanlyniadau Meddal.

Hyfforddiant wedi'i gomisiynu

Mae Plant yng Nghymru'n darparu hyfforddiant mewnol yn rheolaidd ar gyfer ystod eang o sefydliadau, o elusennau bychain a busnesau preifat, i adrannau hyfforddi awdurdodau lleol. Y pynciau craidd mae Plant yng Nghymru'n darparu hyfforddiant ar eu cyfer yw Amddiffyn Plant ac Atal Damweiniau yn y Blynnyddoedd Cynnar, er i ni gael llawer o ddiddordeb hefyd mewn hyfforddiant

ar gyfer Gweithio gyda Grwpiau ac Adnabod ac Ymateb i Ymddygiad Bwlio.

Hyfforddiant amddiffyn plant i ddeintyddion

Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn darparu hyfforddiant amddiffyn plant yn llwyddiannus ers 3 blynedd i Adran Ôl-raddedig Deintyddol Ysbyty Deintyddol y Brifysgol. Rydym wedi'n contractio i ddarparu hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2, yn fewnol, i holl staff practisau deintyddol ac mewn Canolfannau i Ôl-raddedigion yng Nghymru. Rydym wedi darparu 62 o sesiynau hyfforddiant amddiffyn plant, gan gyrraedd 705 o ddeintyddion ledled Cymru, rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013.

Hyfforddiant Cyrraedd y Nod ESF

Darparwyd yr hyfforddiant hwn am ddim i ymarferwyr oedd yn gweithio yn ardal gydgyfeiriant ESF, fel rhan o ymwneud Plant yng Nghymru fel partner yn Rhaglen Cyrraedd y Nod.



"Diolch. Roeddwn i'n wir yn gwerthfawrogi arddull yr hyfforddiant, a'r cyfle i rannu profiadau gyda chyfranogwyr eraill"

"Diolch. Dwy ddim wedi mwynhau a gwerthfawrogi hyfforddiant fel hyn ers cryn amser"

"Roedd yr hyfforddwr yn wych – gallsen i wrando am oriau lawer"

"Cwrs diddorol iawn - diolch!"

"Roedd yr hyfforddwr yn esbonio ac yn hybu meddwl a thrafod"



Cyrsiau hyfforddi agored yn ystod 2012/13

- Rhesymeg a Datrysiadau: darparu Gwasanaethau yn Gymraeg i Blant a Phobl Ifanc, 3 Ebrill 2012, Caerdydd
- Chwarae Therapiwtig i Blant mewn Angen, 15 Mai 2012, Merthyr Tydfil
- Deall Blynyddoedd yr Arddegau, 14 Mehefin 2012, Caerdydd
- Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru, 3 Gorffennaf 2012, Caerdydd
- Dulliau Cadarnhaol o Greu Ymddygiad Cadarnhaol, 5 Gorffennaf 2012, Caerdydd
- Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal a'r Pellter a Deithiwyd, 25 Hydref 2012, Abertawe
- Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru, 13 Tachwedd 2012, Llandudno
- Lleihau Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar, 14 Tachwedd 2012, Caerdydd
- Goruchwyliaeth – Model o Ymarfer, 20 a 21 Tachwedd 2012, Rhyl
- Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig, 22 Tachwedd 2012, Merthyr Tydfil
- Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant, 27 Tachwedd 2012, Caerdydd
- Amddiffyn Plant (Hyfforddiant Achrededig Lefel 2) 29 Tachwedd 2012, Caerdydd
- Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal a'r Pellter a Deithiwyd, 30 Tachwedd 2012, Abertawe
- Amddiffyn Plant (Hyfforddiant Achrededig Lefel 2) 4 Rhagfyr 2012, Rhyl
- Gweithio gyda Grwpiau, 29 a 30 Ionawr 2013, Merthyr Tydfil
- Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru, 6 Chwefror 2013, Abertawe
- Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal a'r Pellter a Deithiwyd, 19 Chwefror 2013, Wrecsam
- Goruchwyliaeth – Model o Ymarfer, 20 a 21 Chwefror 2013, Caerdydd
- Byd Plentyn: Dull systemig o Weithio gyda Phlant sydd mewn Perygl a'u Theuluoedd, 5 Mawrth 2013, Abertawe

Cefnogi Cynnar

Plant yng Nghymru arweiniodd y bartneriaeth i roi'r Rhaglen Cefnogi Cynnar ar waith yng Nghymru. Cefnogi Cynnar yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cydlynus, ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y teulu i blant anabl o dan bump oed a'u teuluoedd, gan ymateb i'w hanghenion. Mae Cefnogi Cynnar yn cynyddu disgwyliadau o ran sut mae asiantaethau a gwasanaethau'n cydweithio i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd ac annog newid. Mae'n ymdrin ag anghenion hyfforddi ac yn hybu datblygiad gwasanaethau gweithwyr allweddol. Mae Cefnogi Cynnar hefyd yn cynnal datblygiad gweithlu amlasiantaeth, ac yn darparu adnoddau ymarferol sy'n sbarduno ac yn cefnogi'r broses o newid ar lefel leol.

Bu pedwaredd flwyddyn y rhaglen Cefnogi Cynnar yn canolbwyntio ar estyn hyfforddiant Cefnogi Cynnar i ymarferwyr a hyfforddwyr, ac adeiladu ar yr arfer da a ddatblygwyd mewn ardaloedd awdurdod lleol.

Lluniwyd yr hyfforddiant Cefnogi Cynnar i gynnal gwelliant gwasanaethau i blant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd. Y nod oedd galluogi ymarferwyr a rheolwyr, rhieni a gofalwyr, i ddatblygu a gwella eu dealltwriaeth o sut mae egwyddorion, dulliau a deunyddiau Cefnogi Cynnar yn eu helpu i ddarparu gwell cefnogaeth i blant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Cynnar wedi parhau i weithio gyda phartneriaid awdurdod lleol, iechyd a thrydydd sector i helpu i wreiddio Cefnogi Cynnar i deuluoedd, a gwnaed cynnydd da mewn sawl ardal.

Ym mlwyddyn pedwar bu ffocws ychwanegol ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng Cefnogi Cynnar a datblygiad Llywodraeth Cymru, sef cynllunio ar y cyd gan ddefnyddio'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Newidiwyd y Ffeil Teulu i adlewyrchu geiriad y CDU, a lluniwyd cysylltiadau cryf rhwng Cefnogi Cynnar a chynllunio ar y cyd yn yr wyth ardal beilot.

Ym mis Chwefror 2013 cynhaliodd Cefnogi Cynnar gynhadledd yng Nghanolfan Optic, Llanelwy, i ddathlu'r gwaith oedd wedi'i gyflawni, ac i lansio'r APP Cefnogi Cynnar. Er i'r cyllid ddod i ben ym mis Mawrth 2013, bydd Plant yng Nghymru yn cynnal y wefan ac yn parhau i gynnal cyrsiau hyfforddi.

Cefnogi Cynnar
Early Support





Sylwadau gan bobl a gymerodd ran yn y Gweithdy:

“Bydda i’n fwy ymwybodol o ddiwyllïannau yn fy ngwaith bob dydd nawr”

“Mae wedi rhoi cipolwg da i mi o’r pethau mae ceiswyr loches yn eu hwynebu; rwy’n gwybod am amddiffyn plant nawr”

“Rwy’n teimlo y galla’ i fod yn fwy ymwybodol o anghenion plant.”

“Rwy’n gwybod i sut i gadw fy mhlentyn i’n ddiogel yn y cartref a’r tu allan”

Prosiect Cynnwys Teuluoedd

Plant yng Nghymru sy’n rhedeg y Prosiect Cynnwys Teuluoedd, gydag arian gan y Loteri Fawr, ac mae’n gweithio gyda theuluoedd a chymunedau Mudol, Ffoaduriaid a rhai sy’n Ceisio Lloches er mwyn amddiffyn a diogelu plant yn y teuluoedd hyn. Cychwynnodd y prosiect yn hwyr yn 2011, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut mae amddiffyn a hybu lles plant, gan gynnwys dulliau rhianta cadarnhaol, er mwyn gwella’r cyfathrebu a’r dulliau o fagu plant mewn teuluoedd, a chadw plant yn ddiogel ac yn saff yn amgylchedd eu cartref.

Nod y prosiect yw cynyddu lefelau dealltwriaeth, mewn teuluoedd a chymunedau, o’u rôl hollbwysig yn niogelwch, lles, addysg, iechyd a datblygiad plant. Mae hyn yn cynnwys eu gwneud yn ymwybodol o gyfraith ac ymarfer amddiffyn plant yng Nghymru, gan fod hynny’n berthnasol i bobl sydd wedi cyrraedd o wahanol wledydd a diwyllïannau. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Pobl a Ddadleolwyd ar Waith (Displaced Persons in Action) a Phobl Ifanc yn Codi Llais (Young People Speak Out) yn bartneriaid allweddol yn y prosiect hwn, ac yn cynnig cyngor ac arweiniad iddo trwy grŵp ymgynghorol.

Yn ogystal â gweithio gyda grwpiau cymunedol, mae’r prosiect yn cynnig sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy’n gweithio ym maes addysg, gofal cymdeithasol a iechyd, ynghylch heriau penodol diogelu plant mewn cymunedau sy’n ceisio lloches, cymunedau o ffoaduriaid a chymunedau mudol. Mae’r sesiynau hyn yn edrych ar fathau penodol o gam-drin plant a allai ddigwydd mewn teuluoedd a chymunedau, ac ymwybyddiaeth o wahanol arferion diwyllïannol a allai fod yn destun pryder i ymarferwyr.

Mae’r prosiect wedi datblygu gwefan gydag amrywiaeth o adnoddau aml-ieithog, yn darparu gwybodaeth i deuluoedd, cymunedau, unigolion, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy’n ymgysylltu â theuluoedd mudol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ynghylch materion a phryderon sy’n effeithio ar y teuluoedd hynny a’u plant.

Yn ystod 2012/13, rydym wedi parhau i gynnal gweithdai yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd ar gyfer ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymarferwyr. Darparwyd rhai o’r rhain mewn partneriaeth â chyrff eraill, megis Cyngor Ffoaduriaid Cymru, BAWSO a Mewn Cymru. Rydym wedi darparu sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol a gweithwyr achosion mewn sefydliadau statudol a thrydydd sector, gan gynnwys y Groes Goch, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a gweithwyr Dechrau’n Deg RhCT. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi bod yn rhan o ddatblygiad y prosiect, ac rydym yn parhau i groesawu mewnbwn gan y sector.



MEIC

Mae Plant yng Nghymru yn un o bum sefydliad a fu'n tendro'n llwyddiannus am y contract i ddarparu llinell gymorth genedlaethol eiriolaeth, cyngor a gwybodaeth MEIC, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed sy'n byw yng Nghymru. Sefydlwyd llinell gymorth MEIC ym mis Medi 2010 a chafodd ei estyn i greu gwasanaeth 24 awr ym mis Chwefror 2011. Plant yng Nghymru sy'n cadeirio Bwrdd Rheoli Cywaith, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth, ochr yn ochr â'n partneriaid, Tros Gynnal Plant, Lleisiau o Ofal Cymru, NYAS a ProMo Cymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o'r llinell gymorth a hybu defnydd ohoni.

Y llinell gymorth yw'r gyntaf o'i bath ar lefel genedlaethol. Mae'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc dros y ffôn, ar destun, trwy negeseuon uniongyrchol ac e-bost. Mae'r Llinell Gymorth yn ddwyieithog, a gellir cysylltu â hi am ddim. Mae'n wasanaeth cyfrinachol, di-enw, ac mae'n darparu gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau eraill a mynediad at eiriolwr proffesiynol annibynnol.

Ym mis Ionawr 2013, bu Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ymweld â safle newydd gwasanaeth MEIC ym Mae Caerdydd, ac yn cwrdd ag eiriolwyr ymgynghorol o'r rheng flaen a chynrychiolwyr Cywaith, y consortiwm sy'n rhedeg MEIC.

Rhwng Ionawr 2011 a 2013, derbyniodd y gwasanaeth dros 14,000 o gysylltiadau gan blant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy e-bost, negeseuon uniongyrchol, testun a ffôn. Mae'r materion y mae plant a phobl ifanc yn cysylltu â'r gwasanaeth yn eu cylch yn cynnwys materion iechyd meddwl, perthnasoedd, iechyd corfforol, camdriniaeth a materion yn ymwneud ag addysg ac ysgolion.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaeth MEIC ar gael o meiccymru.org.



Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) – Cyrraedd y Nod

Mae Plant yng Nghymru yn un o gyd-noddwyr prosiect Cyrraedd y Nod, sy'n cefnogi pobl ifanc i gaffael sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth trwy brofiad gwaith a chyfleoedd yn y gymuned. Yn ystod 2012/13 mae'r arian hwn wedi cynnal nifer o ddatblygiadau yn Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru a Gyda'n Gilydd dros Hawliau (T4R). Mae hefyd wedi cynnal agweddau ar ein rhaglen hyfforddi.



Hyfforddiant Cyrraedd y Nod ESF

Roedd hyfforddiant yn rhan hanfodol o waith Plant yng Nghymru yng nghyswllt prosiect Cyrraedd y Nod. Bu Plant yng Nghymru yn creu ac yn cael hyd i ystod o hyfforddiant perthnasol a oedd yn cynyddu gwybodaeth am y problemau a'r rhwystrau mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn ardaloedd mwy economaidd ddifreintiedig Cymru. Buom ni hefyd yn cefnogi ymarferwyr i ddysgu sgiliau newydd er mwyn gweithio'n adeiladol gyda phobl ifanc oedd mewn perygl o gael eu heithrio o addysg a chyflogaeth. Darparwyd y cyrsiau i'r cyfranogwyr yn ddi-dâl. Roedd yr holl sefydliadau'n gweithio gyda phobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu a oedd mewn perygl o fod yn NEET.

Yn ystod 2012/13 cyflwynwyd pob un o'r cyrsiau canlynol dair gwaith ar draws ardaloedd cydgyfeiriant ESF:

- Gwelwch Fi Clywch Fi – Hybu hawliau plant anabl
- Rheoli Ymddygiad Heriol
- Dysgu Sgiliau Bywyd i bobl ifanc
- Seiberfwlio
- Ymgysylltu â phobl ifanc NEET yng nghefn gwlad Cymru a'u symbylu



"Mae agwedd gadarnhaol y tiwtor wedi fy ysbrydoli, ac os galla i fynd â pheth o hynny nôl i'm gweithle, bydda i'n hapus iawn, ac rwy'n gobeithio bydd y bobl ifanc rwy'n gweithio gyda nhw yn elwa ohono. Bydda i'n dychwelyd i'r gwaith ag agwedd fwy cadarnhaol, ac wedi fy ysbrydoli." Cyfranogwr ar Ymgysylltu â phobl ifanc NEET yng nghefn gwlad Cymru a'u symbylu.

"Alla i ddim aros i ddefnyddio'r technegau." Cyfranogwr ar Dysgu Sgiliau Bywyd i bobl ifanc.

"Gwnaeth yr hyfforddiant fi'n fwy ymwybodol o ddifrifoldeb y broblem a'r ffaith nad yw'n lleihau. Mae YMWYBYDDIAETH yn allweddol." Cyfranogwr ar Seiberfwlio.



Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) – Cyrraedd y Nod

Gyda'n Gilydd dros Hawliau (T4R)

Mae grŵp 'Gyda'n Gilydd dros Hawliau' (T4R) Plant yng Nghymru yn darparu strwythur i bobl ifanc anabl gael cefnogaeth i chwarae rhan lawn, weithredol yn y prosesau o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae grŵp Cymru gyfan yn ceisio rhoi cyfleoedd i bobl ifanc anabl ledled Cymru wneud y canlynol:

- Cwrdd a chael hwyl
- Deall eu hawliau
- Codi materion sy'n destun pryder yn eu bywydau pob dydd
- Cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u cyfoedion
- Meithrin eu gallu, trwy gynyddu eu hyder a'u hunan-barch, i fod yn gyfranogwyr effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau.

Yn ystod 2012/13 bu pobl ifanc o'r grŵp T4R yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw er enghraifft *Ymlaen mewn partneriaeth*



dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Ym mis Mehefin 2012, bu T4R yn ymweld â grŵp o bobl ifanc â nam ar eu golwg yn ystod wythnos breswyl a drefnwyd iddynt yn Sanclêr gan RNIB Cymru. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar CCUHP, ac ar ôl cyflwyniad byr am hawliau, bu rhai o'r bobl ifanc yn trafod eu profiadau eu hunain, yn arbennig o ran cyfranogiad.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd Sesiwn Hyfforddi Breswyl T4R yng Nghaerdydd o 24-26 Ionawr 2013. Daeth pobl ifanc anabl o bob rhan o Gymru at ei gilydd i ddatblygu eu hunan-hyder a'u sgiliau cyfathrebu ymhellach trwy gymryd rhan mewn cwrs hyfforddi Lefel 1 Agored wedi'i achredu ar Addysg Cyfoedion. Bu'r holl gyfranogwyr yn chwarae rhan lawn yn y gweithgareddau hyfforddi, a arweiniodd yn y pen draw at y bobl ifanc yn rhoi cyflwyniad i'w cyfoedion mewn grwpiau.



Mae pobl ifanc sy'n ymwneud â T4R wedi rhoi llawer o adborth cadarnhaol yn ystod y flwyddyn:

"Rwy'n credu bod e'n bwysig iawn i bobl ifanc anabl gael cyfle i ddweud wrth bobl beth yw ein barn am bethau, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnom ni."

"Rwy'n credu mod i wedi cyflawni llawer, ac fe wnes i fwynhau cael siarad yn y Gynhadledd yng Nghaerdydd. Rwy'n meddwl bod e'n bwysig cael dweud ein dweud ar hawliau plant a rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru beth yw ein barn."

"Fe ges i ddiwrnod da iawn a mwynhau'r profiad. Roedd yn hwb i'm hunan-hyder."

"Rwy'n wir yn mwynhau'r cyfarfodydd. Rwy'n falch o fod nôl eto a gweld pawb."

"Doeddwn i erioed wedi rhoi cyflwyniad o'r blaen, ac mae wedi bod yn hwb i'm hyder. Nawr rwy'n teimlo'n fwy abl i ddelio gyda sefyllfaoedd lle dwy ddim yn nabod pobl."

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) – Cyrraedd y Nod



Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru

Gwasanaeth di-dâl a gydlynwyd gan Plant yng Nghymru oedd Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru (PWNW), a oedd yn cefnogi ymarferwyr a sefydliadau i hybu cyfranogiad trwy eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Roedd yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o fenter Cyrraedd y Nod.

Roedd y Rhwydwaith yn cynnal gwasanaeth ar-lein lle gallai gweithwyr yng Nghymru gael gwybod am y newyddion a'r polisi diweddaraf ym maes cyfranogiad. Mae'r ymarferwyr hefyd yn gallu dod at ei gilydd yn yr Ardal Aelodau, lle gellir chwilio am enghreifftiau o arfer da i gefnogi eu gwaith, yn ogystal â rhannu eu hastudiaethau achos eu hunain a'r gwaith maent ar fin ei gyflawni.

Ar ben hyn, cynhaliodd y Rhwydwaith raglen o waith uniongyrchol gyda phobl ifanc, y rhaglen Arbenigwyr Ieuenctid. Yn ystod 2012/13 roedd hynny'n cynnwys prosiect blwyddyn o hyd i edrych ar sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu portreadu yn y cyfryngau a chanfyddiad pobl ifanc o hynny. Roedd y prosiect yn cynnwys dadansoddi sylw a gafwyd ym mhapurau newydd Cymru, a rhaglen o weithdai a gynhaliwyd gyda disgyblion mewn pum ysgol uwchradd mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn sgîl y prosiect cafwyd adroddiad oedd wedi'i fwriadu ar gyfer y cyfryngau, llunwyr polisi a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â fersiwn o'r adroddiad oedd yn hwylus i bobl ifanc. Roedd hefyd ganllaw yn cynnwys erthyglau a chwestiynau a ddatblygwyd gan gyfranogwyr y prosiect, wedi'u bwriadu ar gyfer ysgolion a lleoliadau ieuenctid, er mwyn helpu pobl ifanc i ystyried y cyfryngau a herio dulliau negyddol o'u cynrychioli ynddynt.

Roedd PWNW wedi'i leoli yn Plant yng Nghymru ac yn rhan o Gonsortïwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru.

Llywodraethiant

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n delio gyda chyllid a llywodraethiant y sefydliad, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o aelodau. Etholir 9 o'r aelodau hyn, ac mae tri arall yn cael eu penodi. Mae'r ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am uchafswm o ddau dymor o dair blynedd, a gellir naill ai eu hailethol neu eu hailbenodi ar ddiwedd eu tymor cyntaf o wasanaeth. Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2012/13 oedd:

Dr Mike Shooter (Cadeirydd tan fis Hydref 2012)

John Valentine Williams (Cadeirydd o fis Hydref 2012)

Stuart Chapman (Trysorydd)

Roger Bishop

Rebekah Burns, Cymorth i Fenywod Caerdydd

Diane Daniel (Is-gadeirydd)

Dr Iolo Doull, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru

Mike Greenaway, Chwarae Cymru

Philip Hodgson

Yvonne Rodgers, Barnardo's Cymru

Emily Warren

Y Cyngor Polisi

Mae gan Plant yng Nghymru Gyngor Polisi sy'n cyflwyno argymhellion ar faterion polisi plant a phobl ifanc i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, ond nid oes iddo swyddogaeth llywodraethiant. Mae'r Gyngor Polisi yn cynnwys 10 aelod rhag-etholedig o gyrff allweddol, gyda hyd at 21 o lefydd eraill yn cael eu hethol o blith yr aelodau. Mae 12 Ymddiriedolwr Plant yng Nghymru hefyd yn dod yn aelodau yn awtomatig. Aelodau'r Gyngor Polisi yn ystod 2012/13 oedd:

Y Corff Cynrychioliadol (penodedig, hyd at 10 o aelodau)

ADEW (cynrychiolwyd gan Pierre Bernhard-Grout (tan fis Hydref 2012)

Y Ddraig Ffyni (cynrychiolwyd gan Darren Bird)

Iechyd Cyhoeddus Cymru (cynrychiolwyd gan Rachel Shaw)

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru (cynrychiolwyd gan Dr Nia John)

WLGA (cynrychiolwyd gan Joanna Davies o fis Hydref 2012)

Confederasiwn y GIG (cynrychiolwyd gan Win Griffiths)

ACPO

ADSS (cynrychiolwyd gan Leighton Rees,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych)

Aelodau Etholedig

Dr Susan Evans, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

Keith Ingham, Relate Cymru

Wendy Hawkins, Clybiau Plant Cymru

Deborah Jones, Lleisiau o Ofal (Cymru)

Yr Athro Alison Kemp, Adran Iechyd Plant, Prifysgol Caerdydd

Des Mannion, NSPCC Cymru

Barbara Street (tan fis Mai 2012) yna Jan

Leightley, Gweithredu dros Blant

Cherrie Galvin, Bwrdd Cyfrifoldeb

Cymdeithasol Esgobaeth Abertawe a

Brycheiniog

Dr Elspeth Webb, Ysbyty Prifysgol Cymru

Christine Walby

Dr David Williams, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin

Arsylwyr

CAFCASS Cymru

Llywodraeth Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Y Loteri Fawr



Aelodau Plant yng Nghymru

Yn ystod 2012/13 roedd gan Plant yng Nghymru gyfanswm o 279 o aelodau, yr oedd 204 ohonynt yn aelodau sefydliadol a 50 yn unigolion. Ymunodd 25 o unigolion ychwanegol, sy'n gweithio i sefydliadau sydd eisoes yn aelodau, hefyd fel aelodau atodol.

Sefydliadau

ABCD Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Abertawe Bro Morgannwg –

Pen-y-bont ar Ogwr

Gweithredu dros Blant

AFASIC Cymru

Amgueddfa Cymru

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

- Blaenau Gwent

Cyngor Ynys Môn –

Dechrau'n Deg

Arad Consulting

Ysgol Aran Hall

ASH Wales (Gweithredu

ar Smygu a Iechyd yng

Nghymru)

Cymdeithas Sefydliadau

Gwirfoddol Wrecsam

Atal y Fro

Llyfrgell Prifysgol Bangor

Prifysgol Bangor

Canolfan Gofal Dydd Tir Na

Nog Prifysgol Bangor

Barnardo's Cymru

BAWSO Cyf.

BBC Plant mewn Angen

Bwrdd Iechyd Betsi

Cadwaladr - Wrecsam

Canolfan Therapi Plant

Bobath

Booktrust

Cymdeithas Sefydliadau

Gwirfoddol Pen-y-bont ar

Ogwr (BAVO)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-

y-bont ar Ogwr

Cymdeithas Brydeinig

Mabwysiadu a Maethu

(BAAF) Cymru

Cymdeithas Brydeinig

Gweithwyr Cymdeithasol

Bryn Melyn Care Ltd

BulliesOut

Buttle UK

Cyngor Bwrdeistref Sirol

Caerffili

Rhwydwaith Rhieni Caerffili

CAFCASS Cymru

Fforwm Blynnyddoedd Cynnar

Caia Park

Calan DVS

Canolfan Plant Jig-So

CAPIC (Cydwethio i Reoli

Atal Anafiadau yn sgîl

Damweiniau)

Ffederasiwn Rhieni Caerdydd

a'r Fro

Coleg Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Caerdydd a'r Fro - Caerdydd

Cyngor Caerdydd

Sefydliad Iechyd a Moeseg

Cymdeithas Caerdydd

Cyngor Trydydd Sector

Caerdydd

Prifysgol Caerdydd – Adran

Ffisiotherapi

Prifysgol Caerdydd – Adran

Iechyd Plant

Cymorth i Fenywod Caerdydd

Gwasanaeth Trosedd

Ieuenctid Caerdydd

Rhwydwaith Cydlyn Gofal

Cymru

Gofal am y Teulu

Cyngor Sir Caerfyrddin

Pobl yn Gyntaf Sir

Gaerfyrddin

Cymdeithas Plant a Phobl

Ifanc Sir Gaerfyrddin (CYCA)

Cartref Bontnewydd

CCPAS

Cyngor Sir Ceredigion

Changing Faces

Ymddiriedaeth Ymyriadau

Cynnar i Blant

Cyngor ar Bopeth Cymru

Dinas a Sir Abertawe –

Prosiect Storm

Dinas a Sir Abertawe - YOS

Clybiau Plant Cymru

Llyfrgell Coleg Pen-y-bont





Coleg Pen-y-bont – Gofal,
Astudiaethau Plentyndod ac
Addysg
Coleg Deeside
Contact a Family Wales
ContinYou Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Conwy – Dechrau'n Deg
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Conwy – Teuluoedd Gwledig
yn Gyntaf
Cyngor Gwasanaethau
Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
(CWVYS)
Cruse Bereavement Care
Cymru
Canolfan Blant Integredig
Cwm Golau
Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân
Cylch Meithrin Ynysybwl
Cymdeithas Tai Clwyd
Cyngor Gwynedd
Dangerpoint
Y Ddraig Ffynci
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ddinbych –
Dechrau'n Deg
Cyngor Sir Ddinbych –
Gwasanaeth Gwybodaeth i
Deuluoedd
Cyngor Sir Ddinbych - The
Oaktree Centre
DEWIS Cyf.
Discovery Student
Volunteering Swansea

Dyfodol Powys Futures
Dynamix Cyf.
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Families Need Fathers Cymru
Family Fund
First Campus
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint – Cychwyn
Cadarn
Canolfan Blant Fforest
Rhwydwaith Maethu Cymru
FPA
Full Circle Education
Solutions CIC
Gwasanaethau Gofal a
Chyfiawnder G4S (UK) Cyf.
GISDA
Coleg Gŵyr Abertawe
GroBrain
Cymdeithas Sefydliadau
Gwirfoddol Gwent (GAVO)
Gwerin y Coed/The
Woodcraft Folk in Wales
Hafal
Hafan Cymru
Canolfan Blant Integredig
Calon y Cymoedd
Home Start
Bwrdd Iechyd Hywel Dda –
Sir Benfro
Iaith Cyf / TWF
Cymdeithas Cartrefi Plant
Annibynnol
Landsker Child Care
Anabledd Dysgu Cymru
Llamau Cyf.
Cymorth i Fenywod Llanelli

Canolfan Blant Llwynhendy
Ysgol Gynradd Maes-y-Coed
Mantell Gwynedd
MENCAP Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tydfil
Cyngor Sir Fynwy - LSBC
Cyngor Sir Fynwy - Acorn ICC
Mudiad Meithrin
Conffederasiwn Cenedlaethol
Cymdeithasau Rhieni ac
Athrawon
Cymdeithas Meithrinfeydd
Dydd Cenedlaethol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol
Plant Byddar
Gweithredu Cenedlaethol ar
Ynni Cymru
Y Sefydliad Cenedlaethol er
Ymchwil Addysg (SCYA)
Portage Cenedlaethol
Y Gwasanaeth Cenedlaethol
Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS)
Uned Hawliau Plant Castell-
nedd Port Talbot
Coleg Castell-nedd Port
Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Castell-nedd Port Talbot –
Adran Hyfforddi
Cyngor Gwasanaethau
Gwirfoddol Castell-nedd Port
Talbot
Castell-nedd Port Talbot –
Dechrau'n Deg
Cyngor Dinas Casnewydd
NSPCC

PACEY Cymru
 Gofal Llwybr
 Parc Cenedlaethol Arfordir
 Penfro
 Ysgol Gymunedol Pennar
 Ysgol Gynradd Gymunedol
 Penygarn
 Uned Pobl a Gwaith
 Plant Dewi
 Chwarae Cymru
 Gwasanaeth Gofalwyr Powys
 Cyngor Sir Powys
 ProMo-Cymru
 Prospects for Young People
 Iechyd Cyhoeddus Cymru
 RAY Ceredigion
 Relate Cymru
 Cyngor Bwrdeistref Sirol
 Rhondda Cynon Taf
 Right From The Start
 (Caerffili)
 RNIB Cymru
 Coleg Brenhinol Pediatreg ac
 Iechyd Plant
 Cymru Ddiogelach Cyf.
 Achub y Plant
 Scope Cymru
 SENSE Cymru
 Rhwydwaith Egwyliu Byr
 Cymru
 Sing & Grow UK CIC
 SNAP Cymru
 Solas Cymru
 Sova Cymru/Wales
 Space to be me
 Spark Blaenymaes Cyf.
 Ysgol Fabanod St Andrew

Cymdeithas Plant Dewi
 Bwrdd Cyfrifoldeb
 Cymdeithasol Esgobaeth
 Abertawe a Brycheiniog
 Uned Datblygiad y
 Blynnyddoedd Cynnar,
 Abertawe
 Prifysgol Abertawe – Uned
 Plentyndod Cynnar
 TACT Cymru
 Sefydliad Beth Johnson
 The Place2Be
 The Venture
 Bancio Amser Cymru
 TJB Cymru Cyf
 Meithrinfa a Creche
 Montessori Toadhall
 Partneriaeth Plant a Phobl
 Ifanc Torfaen
 Cyngor Bwrdeistref Sirol
 Torfaen – Gwasanaeth
 Gwybodaeth i Deuluoedd
 Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
 Touch Trust Cyf.
 Ysgol a Chanolfan Adnoddau
 Trinity Fields
 Tros Gynnal Plant
 Hosbis Plant Tŷ Hafan
 Canolfan Deulu Tŷ Hapus
 UCAC (Undeb Cenedlaethol
 Athrawon Cymru)
 UNICEF UK
 Prifysgol Morgannwg –
 Cyfadran Iechyd
 Prifysgol Cymru: Y Drindod
 Dewi Sant – Cyfiawnder
 Cymdeithasol a Chynhwysiad

Prifysgol Cymru: Y Drindod
 Dewi Sant – Addysg
 Blynnyddoedd Cynnar
 Cyngor Bro Morgannwg – Y
 Bartneriaeth Plant
 Cyngor Bro Morgannwg –
 Dechrau'n Deg
 Lleisiau o Ofal (Cymru)
 Gweithredu Gwirfoddol
 Merthyr Tydfil
 Cymdeithas Darparwyr Cyn-
 ysgol Cymru
 Cymdeithas Llywodraeth Leol
 Cymru
 Cyngor Ffoaduriaid Cymru
 Cymorth i Fenywod Cymru
 Whizz Kidz
 Cyngor Bwrdeistref Sirol
 Wrecsam
 Y Bont
 YMCA Cymru
 Canolfan Blynnyddoedd
 Cynnar Ynyscynon
 Ysgol Gymraeg Cwmbrân
 Ysgol Syr Thomas Jones
 Ysgol y Frenni
 Coleg Ystrad Mynach

Aelodau Unigol

Ann Sherlock
 Angela Atherton
 Angela Rees
 Ann Bell
 Ann Williams
 Christine Walby OBE
 Clare Lucignoli
 Diane Daniel

Dr Anne Crowley
 Dr Ruth Parry
 Elly Chesterman
 Elvet Crowe
 Felicity Fletcher
 Fiona MacLeod
 Gill Winter
 Heidi Falconer
 Helen McMullen
 Jan Berry
 Jan Owen
 Jane Lloyd Griffiths
 John Llewellyn Thomas
 John Valentine Williams OBE
 Kerry Kane
 Kerry Marlow
 Laura Horton
 Lesley Conran
 Lesley Parratt
 Lindy Duncalf


Margaret Hanney MBE
 Martin Price
 Mary Anne Marsden
 Merfyn Roberts
 Mike Shooter
 Monica Carroll
 Pat Dunmore
 Pat Smail
 Paul Hopkins QC
 Pauline Galluccio
 Pauline Lawrence
 Philip Hodgson
 Prof Jo Sibert
 Prof June Statham
 Prof Nigel Thomas
 Sara Reid
 Sheila Booth
 Sioned Bowen
 Stuart Chapman
 Sue Thomas



Crynodeb ariannol


ADNODDAU I MEWN	
Grant Craidd Llywodraeth	£558,530
Rhoddion	£1,935
Incwm Buddsoddiadau	£10,753
Cymorthdaliadau Grantiau	£281,203
Tanysgrifiadau Aelodaeth	£35,248
Gweithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cyllid	£484,445
Cyfanswm yr Adnoddau i mewn	£1,372,114

Adnoddau i mewn



ADNODDAU A WARIWYD	
<i>Cost cynhyrchu cyllid</i>	
Gwasanaethau Cynnal ac Aelodaeth	£98,730
Gwariant elusennol uniongyrchol	£1,226,546
Costau Llywodraethiant	£32,134
Cyllid Pensiwn	£17,000
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	£1,374,410
Incwm Net ar gyfer y flwyddyn	-£2,296

Dadansoddiad o'r gwariant elusennol fesul amcan



DADANSODDIAD O'R GWARIANT ELUSENNOL FESUL AMCAN	
Datblygu a chynnal rhwydweithiau cryf	£142,665
Cynrychiolaeth ac Ymgynghori	£214,052
Cynhyrchu, hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth	£298,087
Datblygu polisi, arfer ac ymchwil	£434,881
Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol	£151,990
Gwasanaethau Cynnal yr Aelodaeth	£100,558
Llywodraethiant	£32,177
Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd	£1,374,410